Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Annwyl Weinidog

**Dyletswydd bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau Adran 6**

Dan Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016 rhaid i'm Swyddfa ofyn am gael ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyhyd ag y bo hynny'n gyson â gweithrediad cywir fy swyddogaethau statudol, a thrwy wneud hynny, hybu gwytnwch ecosystemau.

Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd a.6, mae gofyn i mi wreiddio ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn fy ngweithgareddau busnes beunyddiol, gan gynnwys cynllunio, polisïau, rhaglenni a phrosiectau.

Mae gofyn i mi hefyd adrodd ar yr hyn a wnes i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon bob trydedd blwyddyn ar ôl 2019. Yr adroddiad hwn, felly, yw fy ail adroddiad ar fioamrywiaeth.

Nodaf o'r canllawiau fod gweithgareddau fy swyddfa'n dod o dan y categori adrodd lleiafsymiol, a bod gofyn i mi adrodd ar nodau NRAP 1, 4, 6.

Pleser gennyf yw darparu'r adroddiad byr hwn am fy ngweithredoedd a'm gweithgareddau dan y 3 amcan hwn, a ble bo'n berthnasol, byddaf yn parhau i arwain, cefnogi a herio fy nhîm a chyrff cyhoeddus i wreiddio dyletswydd a.6 ymhob un o'n gweithgareddau i'r dyfodol.



**Sophie Howe**

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

**Rhagfyr 2022**

**Adroddiad Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar ddyletswydd a.6 Amgylchedd (Cymru)**

## Cyd-destun – Ni a'n lle

Er nad yw fy swyddogaethau statudol wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â bioamrywiaeth a / na rheoli tir, rwy'n cydnabod bod gan fy Swyddfa ran fawr anuniongyrchol i'w chwarae wrth gefnogi a herio cyrff cyhoeddus o ran eu cyfraniad i wella bioamrywiaeth a hybu gwytnwch ecosystemau. Rwy'n cydnabod hefyd y gallaf, hyd yn oed mewn ffodd fechan iawn, arwain drwy esiampl drwy hybu diwylliant ac arferion gweithio yn fy Swyddfa sy'n cefnogi gofynion y Ddeddf.

Tîm bychan o ryw 20 o bobl ydym ni, sy'n gweithio'n bennaf o gartref, gyda swyddfa fechan a leolir yn Tramshed Tech Ltd, ac heb ddim mynediad i na chyfrifoldeb dros dir na lle allanol.

## Beth mae fy swyddfa'n ei gwneud i Gymru

Fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, fy nyletswydd gyffredinol yw hybu egwyddor datblygu cynaliadwy. Rwyf yn hyfforddwr ac yn gyfaill beirniadol i gyrff cyhoeddus, byrddau gwasanaeth cyhoeddus, ac unrhyw un all helpu i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Rwy'n cefnogi ac yn herio cyrff cyhoeddus i gofleidio'u dyletswydd ac i wella pob agwedd ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ar gyfer holl boblogaeth Cymru.

Rwyf wedi dewis defnyddio fy nyletswydd gyffredinol er mwyn gwneud gwahaniaeth yn ystod fy nhymor drwy osod pedwar pwrpas strategol:

- Pwrpas 1 – Tynnu sylw at a gweithredu ar y problemau a'r heriau mawrion sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol
- Pwrpas 2 – Cefnogi a herio cyrff cyhoeddus i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Pwrpas 3 – Creu mudiad er budd newid
- Pwrpas 4 – Byw'r bregeth – ymgorffori'r newid yr hoffem ei weld mewn eraill.

## Beth a gynhwysir yn fy nyletswydd?

Mae fy nyletswydd gyffredinol yn cynnwys "Hybu egwyddor datblygu cynaliadwy (gan gynnwys y pum dull o weithio), yn enwedig gweithredu fel gwarchodwr dros allu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion; ac annog cyrff cyhoeddus i ystyried yn ddyfnach effaith hirdymor y pethau a wnânt.

I'r perwyl hwnnw, monitro ac asesu i ba raddau mae'r nodau llesiant a osodwyd gan gyrff cyhoeddus yn cael eu hateb."

Er mwyn cynnal fy nyletswydd gyffredinol, mae gennyf ystod o swyddogaethau a grymoedd penodol:

- Adran 18 (a) Dyletswydd gyffredinol – Hybu egwyddor datblygu cynaliadwy
- Adran 18 (b) Dyletswydd gyffredinol – Monitro ac asesu i ba raddau mae'r nodau llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cwrdd
- Adran 19 (a) Grym – Darparu cyngor neu gymorth i gyrff cyhoeddus (sy'n cynnwys darparu cyngor ar newid hinsawdd)
- Adran 19 (b) Grym – Darparu cyngor i Archwilydd Cyffredinol Cymru ar egwyddor datblygu cynaliadwy
- Adran 19 (c) Grym – Darparu cyngor i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus o ran paratoi'i gynllun llesiant lleol
- Adran 19 (d) Grym – Darparu unrhyw gyngor neu gymorth arall i unrhyw berson y mae'r Comisiynydd yn ei ystyried sy'n cymryd camau a allai gyfrannu at lwyddiant y Nodau Llesiant
- Adran 19 (e) Grym – Annog arfer orau mewn cyrff cyhoeddus sy'n cymryd camau i ateb eu nodau llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy
- Adran 19 (f) Grym – Hybu ymwybyddiaeth ymysg cyrff cyhoeddus o'r angen i gymryd camau i ateb eu nodau llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy
- Adran 19 (g) Grym – Annog cyrff cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd a gyda phersonau eraill pe gallai hyn eu cynorthwyo i gwrdd â'u nodau llesiant
- Adran 19 (h) Grym – Ceisio cyngor panel ymgynghorol o ran gweithredu swyddogaethau'r Comisiynydd
- Adran 20 i 22 – Grym i gynnal adolygiadau a gwneud argymhellion

Mae gennyf ddyletswydd hefyd i ddarparu cyngor i fyrddau gwasanaeth cyhoeddus ar eu hasesiadau llesiant a'u cynlluniau drafft, a grymoedd i dderbyn copïau o adroddiadau ac i gael fy ymgynghori ar achlysuron gwahanol.

## Cynnydd ar gwrdd ag amcanion NRAP hyd yn hyn yn 2022, sut mae fy nhîm yn arwain drwy esiampl ac yn hybu diwylliant ac arferion gweithio sy'n cefnogi gofynion y Ddeddf

Fel yr esboniwyd uchod, mae natur trefniant fy Swyddfa a'r gweithgareddau busnes yn golygu nad yw llawer o'r canllawiau adrodd a awgrymwyd yn berthnasol i'n sefyllfa ni. Serch hynny, rwyf wedi adolygu'r canllaw adrodd ac wedi gwneud sylwadau a rhoi enghreifftiau o'n cyfraniad i ddyletswydd a.6. dan bob nod perthnasol isod.

### NRAP Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy'r holl waith o wneud penderfyniadau ar bob lefel.

Codwch ymwybyddiaeth ar draws eich sefydliad ynghylch sut rydych chi'n cyfrannu at weithredu fel sefydliad.

Dau o'm pedwar pwrpas strategol yw: *Pwrpas 3 – Creu mudiad er newid* a *Pwrpas 4 – Byw'r bregeth – ymgorffori'r newid yr hoffem ei weld mewn eraill.*

Rwy'n disgwyl i bob aelod o'm tîm gael dealltwriaeth dda o'r gwaith a wnawn i hybu cynnydd Cymru i gyfeiriad y nodau llesiant, ac i ddefnyddio pob cyfle personol fydd ganddynt i wneud eu rhan. Er mwyn helpu gyda hyn yn ein cyfarfodydd tîm cyfan wythnosol, byddwn ni'n mynd drwy ein cyhoeddiadau allweddol i gynyddu gwybodaeth a rhannu syniadau ynghylch beth mae pawb ohonom yn ei wneud, neu y gallwn ei wneud, i gyfrannu at y mudiad er budd newid a byw pregeth ein Deddf.

Byddwn ni hefyd yn trafod ac yn rhannu cynghorion a llwyddiannau (gan gynnwys yn ein gerddi) yn ein grwpiau Whatsapp ac yn ein sgyrsiau.

### Enghreifftiau o weithredoedd unigol gan fy nhîm yn ystod y cyfnod adrodd hwn:

- Mae nifer o blith ein tîm wedi bod yn plannu blodau i helpu i gefnogi trychfilod. Mae ein COO a Dirprwy Gomisiynydd wedi adeiladu ardal wyllt yn ei gardd, gyda gwestai trychfilod a dau bwynt dŵr, yn dilyn cyngor gan gydweithwyr a'n Hadroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol. Daeth draenogod yn ôl ar ôl blwyddyn fel hyn!
- Gyda help ein polisi amser rhydd i wirfoddoli, mae rhai o'n cydweithwyr wedi bod yn gwirfoddoli yn y gerddi cymunedol organig.
- Rydym wedi trefnu sesiwn glanhau traeth gyda chyfranogwr o'n Hacademi Arweinwyr.
- Mynychodd un cydweithiwr ddigwyddiad gan Grŵp Cadwraeth Coedwig Cwm Talwg yn y Barri, ac mae'n gobeithio gwirfoddoli gyda nhw bob dydd Iau.
- Wrth i ni ddod allan o'r pandemig, sefydlodd aelod o'n tîm grŵp rheded llwybrau cymdeithasol, rhad ac am ddim yn ardal Caerdydd o'r enw 'Wild Trail Cardiff'. Mae aelod o'n tîm wedi bod yn cynnal y grŵp ers dros 18 mis, gyda 2-3 digwyddiad tywys ar hyd llwybrau'n digwydd bob mis, mewn ardaloedd ledled de Cymru. Mae'r sesiynau rhedeg yn digwydd mewn amryw ardaloedd ar draws de Cymru, gan gynnwys yn y bryniau o gwmpas Caerdydd, Cymoedd De Cymru, y Fenni, Bannau Brycheiniog, Penrhyn Gŵyr ac ati. Fel rhan o'i sesiynau rhedeg, bydd Christian yn siarad yn rheolaidd â rhedwyr am amgylchedd, bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwydiannol leol pob ardal. Mae rhedeg llwybrau fel chwaraeon yn tyfu'n gyflym o ran poblogrwydd, ac mae digon o dystiolaeth ar gael ynghylch ei fanteision llesiant corfforol a meddyliol. Mae'n helpu pobl i wreiddio, symud ac ymgysylltu â natur, i ffwrdd o sŵn a llygredd heolydd a phalmentydd. Ac mae'r cynnydd a'r nifer uwch o ddigwyddiadau rhedeg llwybrau, rasys a marathonau 'ultra' ar draws y wlad (ac mewn mannau eraill) yn dyst fod mwy a mwy o bobl eisiau treulio'u hamser yn hyfforddi ac yn rhedeg yng nghefn gwlad Cymru.
- Rydym ni'n cynllunio i gynnal sesiwn cinio a dysgu ar gyfer ein tîm ar brosiectau bioamrywiaeth gymunedol lleol, i weld sut y gallem ni eu cefnogi hefyd.
- Mynychodd dau gydweithiwr brosiect Cymuned Garbon yn Llanymddyfri i ddysgu am, a chymryd rhan mewn, gwaith ymchwil gwyddoniaeth ddinesig i gasglu data am y gallu i ddal a chadw carbon mewn coed brodorol, dan ystod o amagylchiadau plannu. Ein gobaith yw gallu parhau i adeiladu ar y berthynas hon flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Yn ogystal â chefnogi aelodau fy nhîm i newid eu hymddygiad, mae fy nyletswydd yn cynnwys hybu'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac er mwyn gwneud hyn mae gennyf rymoedd i ddarparu cyngor a chymorth i gyrff cyhoeddus, a gallaf gynnal ymchwil.

Gan ddefnyddio’r grymoedd a’r dyletswyddau hyn, ers yr adroddiad diwethaf, rwyf wedi:

## Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Gwasanaeth Natur Cenedlaethol

Rhwng 2020 a dechrau 2022, gweithiodd fy nhîm yn agos â sawl partner a sefydliad i helpu datblyu’r cysyniad o Wasanaeth Natur Cenedlaethol yng Nghymru.

Roedd sefydlu Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yng Nghymru yn un o’r galwadau cyntaf a wnes i yn ‘Rhaglen Lywodraethu Addas i’r Dyfodol’ a gyhoeddwyd yn 2020, i addysgu rhaglen lywodraethu newydd (ar y pryd) Llywodraeth Cymru.

Arweiniodd y gwaith cydweithredol hwn at gynnig i sefydlu Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yn cael ei gyflwyno gerbron **Llywodraeth Cymru a ymrwymodd fuddsoddiad o £166k i symud y peilotau Gwasanaeth Natur Cenedlaethol ymlaen yng Nghymru ym mis Mai 2022.** Prif bwrpas y cyllid hwn yw i ddarparu’r adnodd angenrheidiol ar gyfer cyflwyno cynllun busnes manwl o fewn 6 mis i Lywodraeth Cymru.

Mae fy nhîm wedi hwyluso sgwrs rhwng y tîm Gwasanaeth Natur Cenedlaethol, gweision sifil Llywodraeth Cymru a chydweithwyr yn llywodraeth Seland Newydd i ddysgu am Raglenni Swyddi ar gyfer Natur Seland Newydd a arweinir gan weinidogaethau llywodraeth Seland Newydd, ac sy’n canolbwyntio ar sicrhau swyddi gwyrdd i’r gymuned Maori. Mae llawer o synergedd rhwng y rhaglenni, a byddwn ni’n dod â’r hyn a ddysgwyd yn ôl i Gymru.

## Mynychodd fy nhîm a minnau sawl digwyddiad a chynhadledd, a chodwyd ymwybyddiaeth am yr angen i warchod a gwella bioamrywiaeth, a gweithredu ar ddatganiadau’r argyfyngau natur a hinsawdd.

Er enghraifft, mynychais a chyfrannais at dair Uwch-Gynhadledd y Cenhedloedd Unedig, Stockholm+50, COP26 a COP27:






– Yn COP26 yn 2021, tynnais sylw at argymhellion a amlinellwyd yn fy mhapur ‘[Rhaglen Lywodraethu Addas i’r Dyfodol’](). Roedd yr argymhellion hyn yn cynnwys yr angen i weld Llywodraeth Cymru’n sefydlu ‘Gwasanaeth Natur Cenedlaethol’ ac yn cyllido trawsnewidiad gwyrdd ar ôl Covid. Cymerais ran hefyd mewn cyfres o ddigwyddiadau gan gynnwys ‘Llunio

Polisi ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Canllaw ar gyfer Dyfodol Gwyrdd', a threfnais ddigwyddiad ar rym diwylliant, natur a newid hinsawdd law yn llaw â Size of Wales.

– Siaradais am bwysigrwydd bioamrywiaeth mewn system fwyd gynaliadwy. Yn COP27 eleni, siaradais mewn digwyddiad 'Ieuenctid dros Fwyd' am bwysigrwydd gwreiddio ymdrechion bioamrywiaeth i mewn i'n safleoedd cynhyrchu bwyd, a sicrhau fod unrhyw dechnegau ffermio 'gwyrdd' newydd yn cryfhau bioamrywiaeth, yn hytrach na thynnu oddi wrtho.

– Wrth ysgrifennu Adroddiad Costau Byw yn 2022, gwrandewais ar randdeiliaid wnaeth fy annog i gynnwys neses ar fioamrywiaeth wrth alw am ôl-osod tai a gwella perchnogaeth o ynni. Es mor bell â dweud bod "Rhaid i ni sicrhau nad yw gwres ac ynni lleol adnewyddadwy a chynaliadwy yn dod ar draul natur a bioamrywiaeth yng Nghymru, ond dylai weithio gydag ef er mwyn gadael argraff gadarnhaol o ran bioamrywiaeth."

– Rwyf wedi siarad yn ddiweddar mewn sawl digwyddiad i drafod y cyswllt rhwng iechyd a hinsawdd a bioamrywiaeth. Siaradais yn y digwyddiad 'Necsws Iechyd-Hinsawdd' yn COP27 law yn llaw ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, a Sefydliad Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Awstria, am y systemau iechyd sy'n effeithio ar amgylchedd a sut y mae newid hinsawdd a bioamrywiaeth wael yn effeithio ar ein hiechyd – a thrwy hynny'n ychwanegu mwy o straen i'n systemau iechyd, Rwyf wedi siarad am dorri'r cylch hwn.

Yn ogystal, yn dilyn cyswllt a wnes i yn Stockholm+50, rwyf wedi hwyluso swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar raglen beilot Gwasanaeth Natur Cenedlaethol i gwrdd â swyddogion Llywodraeth Seland Newydd a dysgu oddi wrthynt a'u rhaglen Swyddi er budd Natur.

– Fe wnes i gyfrannu at drafodaeth banel yng ngŵyl fwyd y Fenni hefyd, i drafod yr angen i gael systemau bwyd cynaliadwy.



Ymwelodd y Comisiynydd â chynlluniau amaeth-amrywiaeth a phlannodd goed.







Cafodd ein tîm ffocws ar fioamrywiaeth drwy ein gwaith ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, er enghraifft drwy gydweithio ag eraill i sicrhau fod y Grŵp Trawsbleidiol newydd a awgrymwyd i edrych ar ofidiau hinsawdd yn cael ei ehangu i ganolbwyntio ar Lesiant, Hinsawdd a Natur.

## Codi ymwybyddiaeth yn y cyfryngau

Arddangosodd y Comisiynydd yr angen i achub Gwastatiroedd Gwent mewn rhaglen ddogfen ar deledu cenedlaethol yr Almaen, a rhaglen ddogfen y BBC am Gymru a gyflwynwyd gan Huw Edwards. Ac ar Ddiwrnod Cynefinoedd y Byd, roedden ni'n trydar am ymweliad Sophie â Gwlyptir Gwent ar raglen deledu Almaeneg ZDF.

## Arddangos astudiaethau achos da i ysbrydoli eraill

Er enghraifft, mae'r prosiect Trelluest Wyrddach yn cael sylw yn nifer o gyflwyniadau'r tîm a minnau, a chyhoeddodd ein swyddfa bostiadau ar gyfer wythnos hinsawdd ac wythnos bioamrywiaeth.



Rydyn ni'n rhoi sylw i sawl astudiaeth achos ar ein gwefan ac yn ein hadroddiad sy'n berthnasol i fioamrywiaeth, gan gynnwys: gwella cynaliadwyedd a bioamrywiaeth amgylcheddol yn Ysbyty Gwynedd; Caerdydd a'r Fro yn gwella bioamrywiaeth; Gwent Hinsawdd Barod; Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn gwarchod ac adfer cynefinoedd.

## Annog y sector preifat a chefnogi'r trydydd sector

Rydym wedi arddangos sawl esiampl dda o'r hyn mae sectorau eraill yn ei wneud ym maes bioamrywiaeth, er enghraifft: Parc Cenedlaethol Bluestone – esbonnir rhywfaint o'r hyn maen nhw'n ei wneud dros fioamrywiaeth yn y fideo hwn. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda Cynnal Cymru, Matt Appleby a Busnes Cymru i unioni pecyn offer a rhai o'u prosesau grant yn well gyda chyfrannu at y Ddeddf, gan gynnwys Cymru fwy Cydnerth.

Yn ddiweddar, cefnogais Gymdeithas Bêl-droed Cymru i gynhyrchu'i Strategaeth Gynaliadwyedd i fod yn unol â Deddf LlCD. O fewn y strategaeth, mae gweithredoedd yn cynnwys:

- Datblygu gofynion clwb, canllawiau a hyfforddiant ar leihau effeithiau amgylcheddol negyddol eu cyfleusterau, gan gynnwys caeau gwair a chynnal a chadw cynefinoedd naturiol.

- Sefydlu Comisiwn Cyfiawnder Hinsawdd, Natur a Phêl-droed i amlygu cyfleoedd newydd ac argymhellion i gefnogi clybiau a chymunedau.
- Blaenoriaethu ceisiadau grant ar gyfer cyfleusterau llawr gwlad gan dynnu sylw at ymrwymiad i gwrdd â'r meini prawf effaith amgylcheddol.

O ran y trydydd sector:

- Fel rhan o fy Memorandwm Dealltwriaeth gyda Chyngor Cymdeithasol Gwirfoddol Cymru, fe gwrddais i a'm tîm â sefydliadau a rhwydweithiau trydydd sector amgylcheddol fel RSPB a rhwydweithiau fel Wales Environment Link – mae'u mewnbwn rheolaidd nhw'n ein galluogi i sicrhau fod effeithiau ar gyfer bioamrywiaeth yn cael eu hymgorffori i'n holl waith, er enghraifft drwy dynnu sylw cyrff cyhoeddus at sut y gallai gwario ar yr argyfwng costau byw ystyried enillion bioamrywiaeth.
- Fel rhan o'n gwaith mudiad er budd newid, rydym wedi gallu tynnu sylw at waith sefydliadau sy'n gwarchod ac yn hybu bioamrywiaeth, er enghraifft, waith y Gymdeithas Ddiogelu Forol ar leihau llygredd micro-blastigau a gwaith Llais y Goedwig wrth hybu ymgysylltiad â choedwigoedd yng Nghymru.
- Mae ein gwaith partneriaeth ar y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol wedi gweithio gydag ystod eang o sefydliadau trydydd sector, ac mae wedi cael ffocws cryf ar fioamrywiaeth, gan gynnwys sut y gallai GNC y dyfodol ymgysylltu ag ystod ehangach o bobl a'u cyflogi i warchod a hybu bioamrywiaeth

### Sicrhau bod arweinwyr y dyfodol a hyfforddwyd gennyf drwy fy Academi Arwain yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau a sectorau sy'n hanfodol ar gyfer bioamrywiaeth

Cyfrannodd fy Academi Arwain i hybu bioamrywiaeth a'i gynhwysiant mewn gwneud penderfyniadau yn y ffyrdd canlynol:

- Darparwyd hyfforddiant am y Ddeddf i gyfranogwyr, gan sicrhau dealltwriaeth o'r holl nodau llesiant, gan gynnwys nod Cymru Fwy Cydnerth.
- Roedd y cwrs yn cynnwys cyflwyniad gan dîm prosiect y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol, a gweithdai gyda chyrff cyhoeddus ynglŷn â'u hasesiadau llesiant, sut y maen nhw'n gwreiddio'r Ddeddf, gyda chyrff cyhoeddus Gogledd Cymru'n canolbwyntio ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth.
- Cynhaliwyd dau weithdy pellach gyda Dŵr Cymru – gydag un o'r gweithdai'n taflu sylw penodol ar effaith amgylcheddol y sefydliad yn y tymor hir.
- Gofynnwyd i bob cyfranogwr gynllunio cynllun gweithredu i gael ei weithredu yn eusefydliad.
    - Roedd cyfanswm o bum cyfranogwr yn dod o Gyfoeth Naturiol Cymru, ac fe wnaethon nhw greu un Cynllun Gweithredu ar gyfer CNC ar greu 'Meithrinfa Goed' a gwblhawyd yn llwyddiannus.
    - Daeth un cyfranogwr o'r Gymdeithas Ddiogelu Forol.
    - Cwblhawyd un Cynllun Gweithredu am wreiddio'r Ddeddf mewn sefydliad sector preifat (Costain) gan gynnwys nod Cymru Fwy Cydnerth.

    - Cwblhawyd un Cynllun Gweithredu er mwyn lleihau defnydd carbon un sefydliad sector preifat (Capital Law) – gyda ffocws penodol ar fioamrywiaeth, yr amgylchedd a'r nod o gael Cymru Fwy Cydnerth.
- Mynychodd pedwar cyfranogwr gynhadledd Un Byd Ifanc 2022, oedd wedi gosod 'cefnforoedd' fel thema graidd – mynychwyd nifer o weithdai, seminarau ac areithiau ar fioamrywiaeth forol, ecoleg, yr amgylchedd a newid hinsawdd.

**NRAP Nod 4: Taclo gwasgfeydd allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd**

**Mae adnoddau sydd ar gael eisoes yn dal i gael eu defnyddio i helpu cyrff cyhoeddus a PSBau ar eu taith i wneud y mwyaf o'u cyfraniadau i Gymru Fwy Cydnerth a'u dyletswyddau bioamrywiaeth:**

Mae'r rhain yn cynnwys fy nogfen '*Taith tuag at Gymru Fwy Cydnerth*' sy'n cynnwys adrannau penodol ar:

1. Bioamrywiaeth a Phridd: cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol drwy reoli tir yn addas a chreu ecosystemau sy'n gweithredu'n iach.
2. Llecynnau Gwyrdd Naturiol: cefnogi gwytnwch cymdeithasol a llesiant cymunedol
3. Gwybodaeth am Natur: cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau sy'n gweithredu'n iach.
4. Ansawdd Dŵr ac Awyr: cefnogi gwytnwch ecolegol, gan wneud yr amgylchedd yn iachach i bobl a bywyd gwyllt.
5. Defnyddio Adnoddau Naturiol: Bodd yn agored i addasu i amgylchedd sy'n newid ble mae angen defnyddio adnoddau'n effeithiol

A'm 'Cynllun 10 Pwynt i Ariannu Argyfwng Hinsawdd Cymru', sy'n cyflwyno pwynt cychwynnol ar gyfer trafod gydag arbenigwyr, cyrff cyhoeddus eraill, unigolion, ac yn bwysig, y Llywodraeth i amlinellu pa fath o fuddsoddiad y maen nhw'n credu sydd ei angen i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd. Rhaid ymgymryd â gwaith ar unwaith i baru'r lefel gofynnol o fuddsoddiad eleni, a dylid gwneud gwaith mwy manwl law yn llaw â hyn i amlygu model cyllido a buddsoddi mwy hirdymor.

Mae fy fframweithiau ar gyfer prosiectau a chraffu hefyd yn cynnwys cyngor perthnasol ar Gymru Fwy Cydnerth.

**Datblygu Cynllun 5 Pwynt ar gyfer cyllideb werdd adferol ym Mai 2020**

Gan adeiladu ar y cynllun 10 pwynt ac mewn ymateb i bandemig COVID19, cynhyrchais gyngor ar gyfer cyllideb adfer werdd sy'n cynnwys yr argymhelliad y dylai blaenoriaethau gwariant y Llywodraeth gynnwys:

> "4. Buddsoddi mewn natur a blaenoriaethu cyllido a chefnogi adfer, creu a chysylltu cynefinoedd a bywyd gwyllt ar raddfa fawr ledled Cymru – gan gynnwys ar gyfer atalfeydd llifogydd naturiol, gweithredu'r goedwig genedlaethol ne2wydd, a sicrhau bod rheoli defnydd o dir ac amaeth yn cefnogi cadwyni bwyd a dosbarthu lleol."

**Ceisio sicrhau fod y gyllideb genedlaethol yn adlewyrchu'r argyfyngau hinsawdd a natur**

Gan adeiladu ar fy nghyngor yn fy Nghynllun 10 Pwynt i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd, rwy'n parhau i roi cyngor ar gyllideb y llywodraeth a'i phroses gyllidebu, ac rwy'n parhau i dracio ac annog buddsoddi adnoddau digonol i gyllido'r argyfyngau natur a hinsawdd.

Rwyf wedi bod yn cynghori Llywodraeth Cymru i ystyried yn llawn effaith ei gyllideb ar yr argyfwng hinsawdd – proses a elwir yn gyllidebu hinsawdd. Byddai'r broses hon, o'i gwneud yn llawn ac nid ar hyd llinellau gwariant penodol yn unig, yn rhoi canlyniad carbon net i'r gwariant arfaethedig a fyddai yn ei dro yn helpu Llywodraeth Cymru i bennu llwybrau tuag at sero net fel yr ymrwymwyd iddo yn Sero Net Cymru.

Eleni, mae fy nghyngor yn ymestyn i ystyried effaith y gyllideb ar yr argyfwng natur hefyd. Bydd hyn yn dod yn fwy o flaenoriaeth os cytunir ar dargedau bioamrywiaeth penodol yn nhrafodaethau COP15 Bioamrywiaeth.

### Pennod Lawn yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 ar Nod Cymru Fwy Cydnerth

Yn ogystal â'r adnoddau a grybwyllais uchod, rwyf wedi cyhoeddi'r Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf ym mis Mai 2020, oedd yn cynnwys pennod gyfan ar Gymru Fwy Cydnerth. Roedd y bennod yn cynnwys y prif argymhellion canlynol.

#### Argymhellion Polisi

**Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i wneud gwaith ar raddfa fawr i adfer, creu a chysylltu cynefinoedd ledled Cymru, sy'n cynnwys gosod targedau statudol ar gyfer adfer natur a mesurau adfer rhywogaethau penodol i helpu atal difodiant.**

**Dylai Llywodraeth Cymru...**

- Geisio cynyddu gwariant flwyddyn ar ôl blwyddyn yn unol ag argymhellion Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd, fel yr amlinellwyd yn fy nghynllun 10 pwynt ar yr argyfwng hinsawdd a natur. (Hefyd yn argymhelliad ym Mh 2)
- Ymrwymo i wahardd defnyddio trychfil-laddwr gan gyrff cyhoeddus a gosod targedau blynyddol ar gyfer lleihau hyd at ddim y defnydd o bla-laddwyr cemegol ar dir.
- Datblygu strategaeth system fwyd i Gymru gan gysylltu ynghyd holl rannau'r system fwyd o fferm i fforc.
- Gweithio mewn dull ymlynol gyda Chomisiynydd Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau fod mecanweithiau arwain ac atebolrwydd effeithiol ar waith o ran adrodd ar ddyletswydd Adran 6 a'r nod llesiant Cymru Gydnerth.
- Gweithio gyda chyrff cyhoeddus i ddarparu gorchudd canopi coed o 20% ymhob tref a dinas yng Nghymru erbyn 2030.
- Gosod safonau i sicrhau fod pobl yn gallu cael mynediad i lecynnau glas naturiol o fewn 300 metr i'w cartref. (Hefyd yn argymhelliad ym Mh 3: Cymru o Gymunedau Cydlynus)

**Rwy'n argymell y dylai pob corff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:**

- Cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol drwy reoli tir a môr yn addas i greu ecosystemau sy'n gweithredu'n iach

- Gwneud yn fawr o lecynnau naturiol gwyrdd a glas i gefnogi llesiant.
- Angen ar fyrder i gael gwell gwybodaeth am natur.
- Awyr a dŵr glân ar gyfer bywyd gwyllt a phobl.
- Sicrhau ein bod ni'n defnyddio adnoddau naturiol yn effeithiol.

Ers cyhoeddi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'i gynllun gwarchod rhag llifogydd mwyaf erioed, gyda £214 miliwn wedi'i fuddsoddi dros 3 blynedd. Mae hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu deddfwriaeth gynradd i osod targedau adfer natur trosfwâol ac i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol, ac mae bellach yn cydnabod fod diffyg darpariaeth llecynnau glas a natur, neu ddiffyg mynediad iddynt, fel dangosydd o anfantais cymdeithasol-economaidd.

Hoffwn hefyd annog Cyrff Cyhoeddus i osod nodau llesiant i wneud y gorau o'u cyfraniad i Gymru Fwy Cydnerth ar hyd y llinellau hynny:

**Cyngor ar osod amcanion llesiant ar gyfer yr holl gyrff cyhoeddus a byrddau a gwmpesir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru)**

Cyfeiriwch at y bennod ar Gosod Amcanion Llesiant Da, ond wrth osod eu hamcanion yn benodol mewn perthynas â'r nod hwn, dylai'r holl gyrff cyhoeddus a byrddau a gwmpesir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru):

- Dangos yn glir y cysylltiadau rhwng eu hamcanion llesiant a'u camau ar yr amgylchedd, a meysydd eraill fel tlodi, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, iechyd a chydlyniant cymunedol.
- Nodwch yn glir sut maen nhw'n deall y diffiniad o'r nod 'Cymru Gydnerth'.
- Alinio eu gweithredoedd ac adrodd ar y nod hwn â'u hymrwymiad o dan dyletswydd adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016).

Wrth bennu eu camau, dylai cyrff cyhoeddus a byrddau a gwmpesir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) ganolbwyntio yn y meysydd a ganlyn a dylent:

- Datgan argyfwng natur a hinsawdd a chyflymu graddfa a chyflymder y newid yn gyflym i helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn.
- Ceisio cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol trwy reoli tir a môr yn briodol i greu ecosystemau bioamrywiol sy'n gweithredu'n iach ac annog eraill i wneud yr un peth.
- Buddsoddi yn y rôl bwysig y mae lleoedd gwyrdd a glas bioamrywiol yn ei chwarae wrth gefnogi iechyd pobl a llesiant cymunedol.
- Datblygu eich gwybodaeth am natur a chynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau sy'n gweithredu'n iach, a pharatoi pobl â sgiliau sy'n addas ar gyfer y dyfodol.
- Ceisio gwella ansawdd dŵr ac aer, gan wneud yr amgylchedd yn iachach i'r bywyd gwyllt a phobl.
- Defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy - bod yn ymaddasol i amgylchedd sy'n esblygu.

## Roedd cyngor arall i Gyrff Cyhoeddus a BGC'n cynnwys:

Dros y 3 blynedd ddiwethaf, rwyf wedi darparu cyngor amrywiol i godi ymwybyddiaeth a thaclo problemau sy'n wynebu bioamrywiaeth, gan gynnwys:

- Ein cyngor am asesiadau llesiant drafft ar gyfer BGC, oedd yn ymdrin â phwysigrwydd ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur mewn dull holistaidd – yn 2017 ac yn 2022. Yn asesiadau 2022, archwiliodd pob BGC sut yr oedd yr argyfyngau hinsawdd / natur yn effeithio ar feysydd polisi eraill (fel tai, yr economi, er enghraifft). Gweithion ni gyda CNC i sicrhau fod ein cyngor ar fioamrywiaeth o'r cymorth mwyaf i BGC.
- Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau fod BGC yn cael mwy o wybodaeth a chanllawiau ar bynciau allweddol oddi wrth eu hasesiadau llesiant er mwyn helpu i addysgu'u cynlluniau. Un o'r pynciau hyn oedd yr argyfwng natur. Fe wnaethon ni ddylanwadu ar hyn i annog CNC i gynnal gweithdy ar gyfer swyddogion cefnogi BGC ym mis Gorffennaf 2022: Gweithdy PSB cenedlaethol CNC: newid hinsawdd i bob BGC ym mis Gorffennaf 2022.
- Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda CNC i'n helpu i gynghori BGC ar eu nodau llesiant drafft. O ganlyniad, mae CNC wedi paratoi dogfen, yr ydym ni'n ei defnyddio yn ein cyngor ac yn ei dosbarthu i bob BGC. Mae'r ddogfen er mwyn helpu pob BGC i gymryd camau i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.
- Rydym wedi bod yn cynghori a chefnogi ymgyrch Natur a Ni CNC – ar sut y maen nhw'n gweithredu'r Ddeddf i'r mudiad cenedlaethol hwn er budd newid ym maes taclo'r argyfyngau hinsawdd a natur.
- Nid ydym wedi'i gyhoeddi eto, ond fe wnaethon ni gynhyrchu dogfen 'Rhoi Golau ar Natur a Bioamrywiaeth', gyda chanllawiau, enghreifftiau o arfer dda a darlun o bwy oedd wedi datgan argyfwng hinsawdd / natur ledled Cymru. Fe rannon ni hwn gyda'n cysylltiadau cynnes o fewn cyrff cyhoeddus, i gael adborth, gan dderbyn sylwadau cadarnhaol ei fod wedi ysbrydoli newid.

### Gweithredoedd eraill i helpu i daclo gwasgfeydd allweddol ar fioamrywiaeth

O fewn y cyfnod adrodd, cyhoeddais y cyngor a'r datganiadau isod:

- Datganiad yn ymateb i Wythnos Hinsawdd ym mis Medi 2020, yn galw am gymdogaethau 20 munud, cynyddu gorchudd canopi coed, a llecynnau glas dinesig i wella bioamrywiaeth.
- Maniffesto ar gyfer y Dyfodol (2021), oedd yn cynnig llawer o argymhellion perthnasol i wella bioamrywiaeth, megis galw ar Lywodraeth i fuddsoddi yn yr argyfyngau natur a hinsawdd; sefydlu targedau adfer natur ar dir a môr; mynnu fod isadeiledd gwyrdd yn cael ei darparu fel rhan o bob datblygiad newydd; gosod safonau i sicrhau fod pobl yn gallu cael mynediad i lecynnau gwyrdd o fewn 300m o'u cartref; darparu 20% o orchudd canopi gwyrdd ymhob tref a dinas erbyn 2030.
- Roedd Rhaglen Lywodraethu Addas ar gyfer y Dyfodol (Mai 2021) yn cynnwys argymhellion i sefydlu Gwasanaeth Natur Cenedlaethol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer cyflogaeth a sgiliau mewn natur a swyddi gwyrdd.

- Wedi cyfrannu at Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd Cymru gyfan, a sefydlwyd yn sgil y pandemig. Wedi secondio swyddog o'm swyddfa i fod yn rhan o dîm bach a arweiniodd waith y Grŵp Darparu Adferiad Gwyrdd a helpu i sgorio cynigion a gyflwynwyd o bob cwr o Gymru, yn gofyn am gymorth. Wedi 18 mis o waith caled gyda phartneriaid, helpodd mewnbwn fy swyddog arwain at weld Llywodraeth Cymru'n clustnodi cyllid i helpu i sefydlu Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yng Nghymru. Cyfrannodd ein gwaith hefyd at yr adroddiad 'Adferiad Gwyrdd: Blaenoriaethau Gweithredu' a gyhoeddwyd gan CNC yn Rhagfyr 2020.
- Wedi cyhoeddi cynllun pum pwynt ar gyfer ymyriadau cyllideb hirdymor, sy'n cynnwys datblygu strategaeth systemau bwyd i hybu deiet iach fforddiadwy a chynaliadwy yng Nghymru.  Mae fy nhîm wedi gweithio'n agos hefyd gyda rhanddeiliaid oedd yn rhan o ddatblygu Bil Bwyd Cymru, i sicrhau unioni cynigion yn y bil â nodau llesiant Cymru, gan gynnwys ym maes Cymru Fwy Cydnerth.
- Wedi darparu cyngor ar lesiant amgylcheddol i'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) ar eu hasesiadau llesiant drafft tua dechrau 2022, ac rwyf bellach yn darparu cyngor ar eu cynlluniau llesiant drafft, y mae'n rhaid eu cyhoeddi ym mis Mai 2023. Canolbwyntir ein cyngor ar sicrhau fod pob BGC yn ystyried ac yn gweithredu rhai o argymhellion allweddol Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ar natur a datgarboneiddio. Er enghraifft, defnyddio'u daliadau tir i wneud yn fawr o werth bioamrywiaeth a darparu cynnydd flwyddyn ar flwyddyn mewn isadeiledd bioamrywiol gwyrdd a glas a gorchudd canopi coed yn eu hardaloedd a'u tir. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod ein neges yn gydlynus.

## Fy swyddfa

Ynghylch datgarboneiddio, lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau:

- Mae gennyf fesurau ar waith i leihau ac adrodd ar sut rwy'n datgarboneiddio fy ngwaith yn fy adroddiad blynyddol bob blwyddyn.
- Yn gyffredinol, mae allyriadau carbon fy swyddfa wedi lleihau.
  - 2018-19: 21 tunnell Teithio 71%,  Trydan 28%, Gwastraff 1%
  - 2019-20: 18 tunnell Teithio 61%,  Trydan 38%, Gwastraff 1%
  - 2020-21: ni chasglwyd data oherwydd Covid
  - 2021-22: adleoli'r swyddfa, data i ddilyn
- Rwy'n gwrthbwyso allyriadau carbon bob blwyddyn drwy gyfrwng elusennau Coed Cadw a The Size of Wales a thrwy dynnu sylw at waith da'r cynlluniau hyn, ac ar yr un pryd arddangos ein hymrwymiad i reoli allyriadau carbon yn gyfrifol mewn modd gweithredol.
- Eleni, er mwyn mynd ymhellach, ac wrth i ni symud i swyddfa newydd, byddaf yn comisiynu darparwr annibynnol i'n helpu i ddeall ein hôl troed carbon ar lefel fwy sylfaenol, gan sefydlu llinell sylfaen wydn. Byddwn ni'n cydweithio fel tîm gyda'r darparwr i sefydlu cynllun i ddod yn sefydliad carbon-gadarnhaol dros amser.
- Fel rhan o'r gwaith, bydd y tîm cyfan yn cael ei uwch-sgilio mewn llythrennedd garbon gan sicrhau bod gan bob aelod o staff lefel llinell sylfaen, a bod rheolwyr a'r uwch dîm rheoli ar lefel uwch wrth i ni wthio i gael golygon mwy uchelgeisiol.

- Annog gweithio di-bapur – rydym ni'n cynnal system TG yn y cwmwl ar gyfer y swyddfa a lleihaodd faint o argraffu a wnawn bob blwyddyn hyd at 2020. Ar ôl y cyfnod clo, fe symudon ni i swyddfeydd newydd a phenderfynu na fyddai gennym beiriant argraffu mwyach, er mwyn lleihau gwastraff, allyriadau a gwrth-annog defnyddio papur, inc a thrydan.
- Cefnogi newid dulliau teithio – yn 2018-19 lleihaodd milltiroedd a yrrwyd gan 44% tra bo milltiroedd busnes a wnaed gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus wedi cynyddu gan 41%
- Cefnogi staff i logi Cerbydau Allyriadau Hynod Isel – yn 2018-19 cyflwynais y polisi hwn i gynorthwyo staff
- Mae gan fy Swyddfa feic cronfa a lle i storio beiciau – bydd llawer o'm staff yn seiclo i'r gwaith yn rheolaidd
- Mae gennyf bolisi 'gweithio unrhyw bryd, unrhyw le' ar waith ers y diwrnod cyntaf. Mae hyn yn lleihau angen ymysg y tîm i deithio'n ddiangen.
- Yn 2019, cofrestrais fy Swyddfa ar gyfer Siarter Teithio Llesol Caerdydd, dan arweiniad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd. Ym mis Medi 2022, roeddwn wrth fy modd o weld fy swyddfa ymysg y cohort cyntaf o weithleoedd i gwblhau lefel 1, ac rydym bellach wedi cofrestru ar gyfer Siarter Lefel 2 sydd newydd ei chyflwyno. Ein nod yw mynd ymhellach o lawer na'r gofynion isaf, a dangos arweinyddiaeth yn y meysydd ble gallwn ddylanwadu i beri newid.
- Nodwedd reolaidd o ddiwylliant ein swyddfa yw cyfarfodydd awyr agored ac wrth gerdded. Maen nhw'n ein cadw'n heini, yn helpu ein llesiant a'n cyswllt â natur.
- Rydym ni'n chwilio am gadwyni cyflenwi moesol wrth ffynonellu nwyddau a gwasanaethau ar gyfer ein swyddfa, megis cyflenwad trydan a'r cytundeb glanhau'r swyddfa.
- Mae gennym siop onestrwydd Masnach Deg yn fy swyddfa.
- Fe wnaethon ni gefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda chaffael crysau t cotwm Masnach Deg ar gyfer cynhadledd flynyddol ar ddatgarboneiddio.
- Nid oes gennym le tu fas, ond rydym wedi llenwi ein swyddfa â phlanhigion a 'wal werdd'.

**NRAP Nod 6: Gosod fframwaith llywodraethiant a chefnogaeth er mwyn cyflawni ar waith**

Fel Comisiynydd a Swyddog Cyfrifo, mae'r cyfrifoldeb dros lywodraethiant yn aros gyda mi. Ym mis Ebrill 2020, dirprwyais gyfrifoldeb dros sicrhau fod dyletswydd a.6 yn cael ei fonitro a'i adolygu i'm Prif Swyddog Gweithredu a'r Dirprwy Gomisiynydd, sy'n adrodd yn ôl ataf yn rheolaidd.

**Adolygu dyletswydd  a.6**

Mae adolygiad fy Mhrif Swyddog Gweithredu a'r Dirprwy Gomisiynydd eleni wedi dod i'r casgliad yr hoffem wneud mwy gyda'n staff i'w huwch-sgilio. Mae cynllun dysgu a datblygu wrthi'n cael ei baratoi gan ein Prif Ysgogwr Newid Pobl a Diwylliant newydd. Bydd grŵp o wirfoddolwyr o blith ein staff yn cydweithio ar sut allwn ni godi ymwybyddiaeth ymhellach ymysg ein tîm a sut i annog a chefnogi gweithredu unigol pellach.

Bydd fy nhîm yn cwrdd yn flynyddol bob mis Ionawr i gytuno ar ein rhaglen waith a’n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, a thrafodir hyn gyda’r Comisiynydd newydd a ddylai gymryd drosodd y swydd ym mis Chwefror 2023. Bydd hwn yn gyfle naturiol i drafod sut y gallwn wreiddio ymhellach ein dyletswydd a.6 i mewn i’n gweithgareddau busnes.



**Sophie Howe**

**Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru**

**Rhagfyr 2022**